PAN CHEILTEACH CEATHARLACH
Yr Ŵyl Ban Geltaidd, Carlow 2012

Dyma fi wedi mynychu'r Wyl Ban Geltaidd yn Carlow, nepell o Ddulyn o Ebrill 12-15 eleni. Hwylio o Gaergybi, bnawn Mawrth, Ebrill. Y môr yn llyfn a chyrraedd y gwesty ganol y pnawn. Roedd cyfarfod agoriadol ar y nos Fawrth – agorwyd yr ŵyl gan Brifathro Coleg Carlow. Yn dilyn cafwyd cyfarchion gan Michael D. Higgais, a chafwyd peth o hanes beirdd a phrifathrawon a ddysgai'r plant i farddoni. Roeddent yn cenhadu'n frwd dros hawliau dinesig. Yn dilyn cafwyd cyngerdd gan aelodau o'r gwledydd Celtaidd.

Dydd Mercher cychwyn ar drip ar y bws i weld Gerddi Altamont, a'r tŷ bonheddig oedd bron yn adfail. Gerdddi rhyfeddol ar lawer lefel a llyn godidog yn y gwaelod. Ymlaen i Hen Efail a chael cinio blasus yno. Cyngerdd amrywiol i ddilyn.

Nos Fercher – Dyma noson y canu gwerin – roedd deg yn cystadlu. Ben Jad o Gernyw oedd yn fuddugol a Steffan Rhys Hughes o Gymru yn ail ar y gystadleuaeth unigol. Yna daeth cystadlaethau'r grwpiau gyda Dylan Cernyw, Steffan, Catrin, Iwan ap Sion a Ray ac Eirlys yn dod yn drydydd! I ddilyn roedd Noson Lawen gan gynrychiolwyr Iwerddon, noson i'w chofio.

Bore Iau, cychwyn am Kilkenny ac yna i Waterford i weld y nwyddau crisial drudfawr. Wnaethom ni fawr ddim ond edrych – roedd siandelîr ar werth am £7,000! Ymlaen reit handi i New Ross i weld atgynhyrchiad o gwch o'r enw Dubrody – aeth y Gwyddelod ar hon i'r Amerig amser y Newyn Mawr ym 1849.



WILLIAM GRAVES & SON
THE QUAY, NEW ROSS
PASSENGERS' CONTRACT TICKET.

Ship Dubrody of 458 tons register burthen, to sail from New Ross for New York on the 18th day of March 1849

Name: Ann Connor

Total £ 53.00

Signature William Graves

Rhaid oedd cael tocyn arbennig i gael mynd

bachgen ifanc di-rodres, a llais hudolus.

Nos Iau, Noson lawen yng ngofal Cernyw, Ynys Manaw a Llydaw.

Bore Gwener – trip i weld y man lel ffilmiwyd Ballykissangel! Siopa fu hanes rhai ohonom. Aed i ymweld â Wicklow ac Arklow. Gorymdaith drwy'r dref – hyfryd oedd gweld cynrychiolwyr o Glwb Ieuenctid COBRA yno yn cystadlu – credaf mai nhw oedd yr enillwyr.

Gyda'r nos – Cyngerdd y Cymry yn yr Eglwys Gadeiriol. Roedd y neuadd yn orlawn – dim rhyfedd pan fyddwch yn sylweddoli fod naw côr, tri pharti dawns a llawer o gynrychiolwyr o Gymru yno. Dyma rai o'r eitemau: Band o Gaerfyrddin; Dawnswyr Tipyn o Bopeth, Caernarfon a Nantgarw; Mali; Côr Glanaethwy; Parti'r Efail; Hogia Penrhos; Triawd yr Ynys; Moira Lewis; Côr yr Ynys; Hogia'r Berfeddwlad ; Dylan Cernyw a Gwennan Gibbard i gloi'r noson.

Cyflwynwyd llun arbennig i Tegwyn Williams – llun o Gastell Carlow – i ddiolch iddo am ei waith caled dros 41 mlynedd yn hyrwyddo'r ŵyl.

Dydd Sadwrn – Dyma uchelfannau'r ŵyl i mi'n bersonol. Diwrnod y cystadlu! Corau partion dawns, telynau, ffliwt, banjo, consartina mewn gwahanol ganolfannau – amhosibl oedd mynd i'r cyfan. Dyma lle bûm yn y bore – dawnsio. Enillydd y ddawns unigol – Eifion o Nantgarw; enillydd y dawnsio grŵp – Llydaw ac enillwyr dawns newydd sbon – Dawnswyr Nantgarw.

Yna cafwyd pnawn bendigedig yn gwrando ar y corau – unarddeg ohonynt! Un o Iwerddon, un o'r Alban ac un o Gernyw – a'r gweddill o Gymru. Enillwyr: Côr Plant – Llanbabs yng ngofal Lyndsey Vaughan.

Ysgolion Cerdd – Glanaethwy
Corau Cymysg – Cernyw
Corau Merched – Glanaethwy
Prif Gystadleuaeth - Glanaethwy
Corau Meibion – Hogiau'r Berfeddwlad
Corau Ifanc – Aelwyd yr Ynys
Corau Traddodiadol – Lleisiau'r Cwm
Agored – Glanaethwy
Cân Orau'r Gystadleuaeth – Penrhos

Dyna i chi beth oedd gwledd – a llongyfarchiadau calonnog i bob côr – ond rhaid rhoi canmoliaeth arbennig i blantos Llanbabs.